

Mae rhai o ddisgwyliadau'r FfLIRh ar gyfer Blwyddyn 3 yn cynnwys:

### Llafaredd

#### Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

- Esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio geirfa briodol.
- Trefnu'r hyn y maent yn ei ddweud fel bod y gwrandawyr yn gallu dilyn, e.e. *pwysleisio pwyntiau allweddol, rhoi esboniad yn ei drefn.*
- Gwrandon'n ofalus a gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn y maent yn ei ddysgu a'r hyn y maent eisoes yn ei wybod.
- Siarad yn bwrpasol er mwyn cyflawni tasg mewn grŵp.

### Darllen

#### Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth

- Defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth am ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun.
- Darllen testunau gwybodaeth byr yn annibynnol gan ganolbwyntio.

#### Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd

- Nodi'n gywir bwnc a phrif syniadau testun, e.e. *drwy uwchleuo, gan ddefnyddio geiriau allweddol y testun.*
- Dod i gasgliad ynglŷn â syniadau a gwybodaeth drwy gysylltu gosodiadau pendant, e.e. *achos ac effaith.*

### Ysgrifennu

#### Trefnu syniadau a gwybodaeth

- Ysgrifennu at ddibenion a darllenwyr gwahanol gan ddewis geiriau er mwyn creu amrywiaeth a diddordeb.
- Nodi syniadau i'w defnyddio wrth ysgrifennu.
- Ysgrifennu gan ddefnyddio cyflwyniad i'r pwnc a diweddglo.

#### Ysgrifennu'n gywir

- Defnyddio geirfa sy'n gysylltiedig â'r pwnc neu â chyd-destun y pwnc.
- Cychwyn brawddegau mewn amrywiaeth o ffyrdd.
- Defnyddio atalnod llawn, gofynnod, ebychnod ac atalnod ar gyfer rhestr.
- Sillafu pob gair aml ei ddefnydd yn gywir.

# Cefnogi plant ym Blwyddyn 3

**Taflen i rieni**  
Helpu eich plentyn gyda llythrennedd

## Cefnogi eich plentyn ym Mlwyddyn 3:

### Llafaredd

- ✓ Gallwch gael hwyl drwy greu posau a dod o hyd i ystyron gwahanol ar gyfer yr un gair.
- ✓ Gallwch greu eich fersiynau eich hun o rigymau adnabyddus er mwyn helpu'ch plentyn i glywed patrymau mewn geiriau.
- ✓ Gofynnwch i'ch plentyn am ei (d)diwrnod yn defnyddio cwestiynau penagored, e.e. "Beth gefaist ti i frecwast? Pa ran o'r dydd oeddet ti'n ei hoffi orau?"
- ✓ Ar ôl i'ch plentyn wylio rhaglen deledu neu ffilm, siaradwch ag ef/hi am y stori, e.e. "Beth ddigwyddodd yn y diwedd?" Rhowch ddigon o amser i'ch plentyn feddwl am y cwestiyanu, gan ddarparu cliwiau'n ôl yr angen i'w helpu i gofio. Wedyn, gallech roi papur ac ysgrifbinnau lliw neu greonau i'ch plentyn ysgrifennu ei stori ei hun.
- ✓ Mae mynd i siopa bwyd yn amser da i ddysgu geirfa, e.e. 'faint o...', 'sawl un...'. Wrth i chi ddewis eitemau yn y siop neu'r archfarchnad, neu ar-lein, defnyddiwch eirfa megis 'llawer, rhai, ychydig, llai, mwy, digon a cymaint'. Er enghraifft, "Mae gennym lawer o duniau ffrwyth! Wyt ti'n meddwl ein bod angen cymaint â hynny? Rydw i'n meddwl y bydd llai yn ddigon. Beth am i ni roi rhai o'r tuniau yn ôl?"
- ✓ Yn ystod prydau bwyd gartref, gallech annog eich plentyn i ddysgu am sgysiaau grŵp a chymryd rhan ynddyn nhw. Byddech yn gallu gofyn cwestiwn i'ch plentyn fel "Sut ddiwrnod gefais ti heddiw?" Wedyn, gofynnwch gwestiwn sy'n annog y plentyn i ddweud mwy, megis "Dywed fwy wrtha i am dy ffrind newydd yn yr ysgol. Ydy hi'n hoffi dawnsio hefyd?" Hefyd, byddech yn gallu annog eich

plentyn i wrando ar yr hyn y mae pobl eraill yn ei ddweud, e.e. "Glywaist ti beth ddywedodd dy frawd am y clwb newydd ar ôl ysgol? Fyddet ti'n hoffi mynd hefyd?"

### Darllen

- ✓ Gallwch helpu eich plentyn i ddewis hobi newydd ac yna i ddarllen am yr hobi neu brosiect creadigol, e.e. garddio, gweithgaredd coginio neu grefft.
- ✓ Trefnwch ymweliadau yn ystod y gwyliau ysgol i leoedd lle gall eich plentyn gymryd rhan mewn cwisiau neu helfeydd trysor sydd wedi eu trefnu. Hefyd, byddech yn gallu creu eich helfa drysor eich hun y tu mewn i'r tŷ neu yn yr awyr agored, er mwyn i'ch plentyn gymryd rhan ynddo.
- ✓ Gallwch bobi bisgedi/cwcis/cacennau syml gyda'ch plentyn drwy ddilyn rysâit syml (y gellir dod o hyd iddo mewn llawer o lyfrau neu ar-lein), e.e. teisennau brau neu sgons.
- ✓ Ewch â chwpl o lyfrau gyda chi ar daith car, bws neu drên er mwyn i'ch plentyn gael eu darllen. Gallwch annog eich plentyn i ddarllen y llyfrau yn uchel i chi, e.e. wrth i chi ddreifio. Wrth i'r plentyn ddarllen, gofynnwch gwestiynau am y plot neu'r stori, ac am y cymeriadau, e.e. "Ydy hwnna'r un person wnaeth helpu'r ferch fach ar ddechrau'r stori? Byddech yn gallu gofyn am farn eich plentyn ar y stori, e.e. "Beth oeddet ti'n ei feddwl o...?" gan ofyn i'ch plentyn gymharu'r llyfr hwn â llyfrau eraill, e.e. "Wyt ti wedi darllen llyfrau eraill gan yr un awdur?"
- ✓ Helpwch eich plentyn i ddewis eitemau bwyd drwy ddarllen y labeli ar y cynhalwyr, e.e. "Rydym ni angen llaeth braster isel. Gad i ni weld pa rai sydd â braster isel ar y label." Wrth i'ch plentyn gael mwy o ymarfer, gadewch iddo ef/hi geisio gwneud hyn, e.e. "Rydym ni angen saws tomato. Fedri di ei nol i mi?" Byddech hefyd yn gallu egluro fod y label yn darparu gwybodaeth am y

maeth sydd yn y bwyd yn y cynhaliwr, gan sicrhau fod eich plentyn yn arfer darllen label i ganfod bwydydd mwy iachus, e.e. bwyd sydd â llai o siwgr ynddo.

- ✓ Gallech adael i'ch plentyn gario'r rhestr siopa wrth i chi fynd o gwmpas y siop. Gallai ddarllen enwau'r pethau rydych chi eu hangen. Os rhowch bensil i'ch plentyn, gallai groesi enwau pethau oddi ar eich rhestr wrth i chi eu rhoi yn y fasedd neu yn y troli. Os nad ydych yn defnyddio rhestr siopa, gall eich plentyn ddefnyddio'r dderbynneb yn yr un modd. Wrth i chi gadw pob eitem ar ôl mynd adref, gofynnwch i'ch plentyn ddod o hyd i enw'r eitem ar y dderbynneb, gan roi llinell drwyddo.
- ✓ Gallwch chi a'ch plentyn chwarae gemau cyfrifiadurol gyda'ch gilydd, a gallech ofyn i'ch plentyn ddarllen ac esbonio'r rheolau i chi.

### Ysgrifennu

- ✓ Gofynnwch i'ch plentyn greu helpa drysor ar gyfer brodyr a chwiorydd iau. Bydd angen ysgrifennu'r cliwiau yn defnyddio iaith a llawysgrifen y gall plant iau eu darllen.
- ✓ Gofynnwch i'ch plentyn baratoi drama neu sgets fer y gall gweddiill y teulu ei gwyllo. Byddai hwn yn weithgaredd da pan y daw ffrindiau at eich plentyn i chwarae. Gellir ysgrifennu'r ddrama neu sgets a'i pherfformio yn defnyddio sgrïpt a baratowyd neu ei pherfformio ar sail ad-lib.
- ✓ Gall eich plentyn wneud cardiau dathlu ar gyfer gwahanol achlysuron a gellir cadw'r rhain nes y bydd achlysur i'w defnyddio. Hefyd, gall eich plentyn greu cerddi bychain i'w cynnwys yn y cardiau.

- ✓ Anogwch eich plentyn i greu albwm lluniau drwy ludo ffotograffau neu luniau o gylchronau ar bapur. Gallai eich plentyn ysgrifennu capsïynau neu stori fer i fynd â'r lluniau.
- ✓ Byddech yn gallu neilltuo amser a man arbennig i ysgrifennu bob dydd. Mae llawer o deuluoedd yn mwynhau amser darllen yn ddyddiol, a byddech chi'n gallu neilltuo amser ysgrifennu mewn ffordd debyg – hyd yn oed os mai dim ond am ddeg munud yn unig y bydd hyn. Os nad ydy eich plentyn yn ysgrifennu eto, gallech gymryd mantais ar y cyfle hwn i drawsgrifio ei syniadau. Yn ychwanegol, anogwch eich plentyn i ddod o hyd i fan arbennig ar gyfer ysgrifennu – man sydd yn eu hysbrydoli i ysgrifennu neu feddwl; gallai fod yn eu gwely, wrth fwrdd y gegin, yn eu hoff gadair, neu hyd yn oed yn yr awyr agored.
- ✓ Anogwch eich plentyn i ddefnyddio cyfrifiaduwr gartref neu yn y llyfrgell leol er mwyn gyrru ebyst i ffrindiau a theulu, ysgrifennu blog syml neu gymryd rhan mewn fforwm syml, o dan eich goruchwyliaeth chi.